

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf: EN010112)

Nodyn yr Awdurdod Archwilio o Archwiliad Safle Heb Gwmni (USI)

Archwiliad 2: Amgylchion safle'r cais a'r ardal ehangach – 1 Awst 2022 i 4 Awst 2022

Cofnod byr yw'r nodyn hwn i hysbysu'r Ymgeisydd, Partion â Buddiant ac unrhyw bartion eraill am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio.

Ymgymerodd yr Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) ag ymweliad safle heb gwmni ddydd Llun y cyntaf o Awst, dydd Mawrth yr ail o Awst, dydd Mercher y trydydd o Awst, a dydd Iau y pedwerydd o Awst 2022. Cynhaliwyd yr archwiliadau mewn car neu ar droed a beic, o ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Cynlluniwyd y llwybrau gan roi ystyriaeth i ddogfennau cais yr Ymgeisydd, a galluogodd yr ymweliad safle heb gwmni i'r Awdurdod Archwilio gael golygon o safle'r apêl ar ardal amgylchynol, ac ymgyfarwyddo â nhw.

Roedd golygfannau (VP) y cyfeiriwyd atynt yn ymwneud â'r rheiny a nodwyd naill ai yn Asesiad yr Ymgeisydd o'r Morwedd, Tirwedd ac o'r Effaith Weledol (SLVIA) [AS-027] neu Asesiad yr Ymgeisydd o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) [AS-029]. Defnyddiwyd ffotogyfosodiadau / delweddau'r Ymgeisydd i gynorthwyo â delweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn.

Gallai'r Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) ymgymryd â rhagor o archwiliadau safle heb gwmni maes o law, fel y bo'r angen.

DIWRNOD 1 - Dydd Llun 1 Awst 2022

Tywydd: Cymylog gyda rhai ysbeidiau heulog

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad bore gan aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Alex Hutson a Jason Rowlands. Ymwelont â SLVIA **VP 43** (Mynydd y Garn), **VP 1** (Porth Llechog), **VP 2** (Trwyn Eilian), **VP 3** (Mynydd Eilian), **VP 41** (Llwybr Arfordir Cymru i'r gogledd ddwyrain o Rhos-mynach-fawr) a **VP 42** (Mynydd Bodafon), yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd hawl dramwy gyhoeddus i gyrraedd y golygfannau, lle roedd angen.

Yn y prynhawn, ymunwyd â Mr Hutson a Mr Rowlands gan arweinydd panel yr Awdurdod Archwilio, Jon Hockley. Gyda'i gilydd, ymwelont â SLVIA **VP 44** (Castell Biwmares), **VP 49** (Pont Menai), **VP 50** (Castell Gwrych), a **VP 45** (Castell Conwy), yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd hawl dramwy gyhoeddus i gyrraedd y golygfannau, lle roedd angen. Nodwyd lleoliadau'r asedau treftadaeth hyn.


DIWRNOD 2 - Dydd Mawrth 2 Awst 2022

Tywydd: Cymylog gyda chyfnodau heulog a chawodydd glaw ysbeidiol.

Gwelededd: Da


Mynychwyd yr archwiliad bore gan aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Jon Hockley, Alex Hutson, a Jason Rowlands. Yn gyntaf, ymwelont â Phier Llandudno, gan edrych ar safle'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer yr arae o ben draw'r ased treftadaeth hwn.

Yn ail, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i Ruddlan i weld rhan o goridor arfaethedig y llwybr cebl (gan gynnwys pwynt croesi arfaethedig Afon Clwyd). Cerddodd yr Awdurdod Archwilio ar hyd hawl dramwy gyhoeddus. Hefyd, wrth gerdded gwelant LVIA **VP 8** (Ruddlan). Dangosir y llwybr a gerddwyd yn y ddelwedd¹ isod.




Yn drydydd, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i'r gogledd o Goleg Neuadd Pengwern i edrych ar rannau pellach o goridor y llwybr cebl ar droed. Dangosir y llwybr a gerddwyd yn y ddelwedd isod. Nodwyd gan yr Awdurdod Archwilio nad oedd gan yr hawl dramwy gyhoeddus a nodwyd gan yr Ymgeisydd fel DE/201/8 bwynt mynediad clir, ac nid oedd arwydd iddi wrth bwynt y saeth goch a ddangosir yn y ddelwedd isod, a bod gordyfiant ar yr hawl dramwy gyhoeddus a nodwyd fel DE/206/4 ac nad oedd modd mynd arni wrth bwynt y saeth las, a ataliodd yr Awdurdod Archwilio rhag edrych ymhellach ar y llwybr cebl arfaethedig yn y lleoliad hwn.

¹ Mae pob delwedd © Mapbox © OpenStreetMap yn Cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfeydd data 2022



Yn bedwerydd, teithiodd yr Awdurdod Archwilio mewn car i ochr ogleddol Parc Busnes Llanelwy i edrych ar rannau eraill o goridor y llwybr cebl ar droed. Ar y ffordd, ymwelont hefyd ag Eglwys Santes Margaret, Llanelwy, ac edrych ar yr adeilad rhestredig hwn y tu mewn a thu allan. Dangosir y llwybr a gerddwyd i edrych ar goridor llwybr y cebl yn y ddelwedd isod. Gwelodd yr Awdurdod Archwilio'r golygon a oedd yn cwmpasu adeilad rhestredig Tyddyn Isaf (a'r Eglwys ddywededig) o ar hyd yr hawl dramwy gyhoeddus a nodwyd gan yr Ymgeisydd fel DE/201/7 i gael gwerthfawrogiad o'r asedau treftadaeth hyn a'u lleoliadau.



Yna ymwelodd yr Awdurdod Archwilio ag LVIA **VP 7** (Llanelwy) a LVIA **VP 9** a SLVIA **VP 54** (Y Foel) yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd hawl dramwy gyhoeddus i gyrraedd y golygfannau lle bo angen.


Wedyn, ymwelodd yr aelodau panel, Alex Hutson a Jason Rowlands â SLVIA **VP 61** (promenâd Llandudno ger Venue Cymru), **VP 58** (Trwyn y Fuwch) a **VP 62** (Pen y Gogarth ger y Bwth Tollau), yn y drefn honno, gan yrru rhwng y golygfannau a cherdded ar hyd hawl dramwy gyhoeddus i gyrraedd y golygfannau, lle roedd eangen.

DIWRNOD 3 – Dydd Mercher 3 Awst 2022

Tywydd: Cymysg; da ar lefelau is, cymylog gyda glaw ysbeidiol mewn mannau uwch

Gwelededd: Da, yn bennaf. Er yn gymylog ar adegau ar lefelau uwch, roedd y cymylau'n symud yn gyflym ac yn rhoi gwelededd da mewn toriadau rhyngddynt.

Mynychwyd yr archwiliad gan aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Jon Hockley, Alex Hutson a Jason Rowlands. Ymwelont â SLVIA **VP 38** (Foel Fras) a **VP 10** (Carnedd Llewelyn), yn y drefn honno, gan yrru rhyngddynt. Dangosir y llwybr a gerddwyd ganddynt yn y ddelwedd isod.



DIWRNOD 4 – Dydd Iau 4 Awst 2022

Tywydd: Da

Gwelededd: Da

Ymwelodd aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Jon Hockley ac Alex Hutson â SLVIA **VP 52** (Gwersyll Pen-y-Dinas wrth yr Arwydd Dehongli). Wedyn, ymwelodd Alex Hutson â SLVIA **VP 63** (A55 ym Mhenmaenmawr), **VP 64** (A55 wrth Gylchfan Puffin), **VP 36** (Tal y Fan), **VP 19** (Llandrillo-yn-

Rhos), **VP 55** (Llwybr troed uwchben Cilgwyn Mawr), **VP 65** (A55 wrth y lanfa i'r gogledd o Benmaen), **VP 56** (Pen-y-corddyn-mawr), **VP 57** (Moelfre Isaf), **VP 23** (Acwariwm y Rhyl), **VP 24** (Graig Fawr), **VP 26** (Golygfan Bryn-Ilwyn (Golygfan Llethr Bryn Prestatyn, Gwaenysgor)), **VP 25** (Canolfan Nova Prestatyn) a **VP 27** (Y Parlwr Du), yn y drefn honno, gan yrru, cerdded neu feicio rhyngddynt.

Diwedd USI2